

Senedd Myfyrwyr

Hysbysir aelodau Senedd y Myfyrwyr y cynhelir y cyfarfod nesaf fel y dangosir isod:

Dydd Mawrth 19 Tachwedd 2019

Ystafell 4J, 4ydd Llawr Undeb y Myfyrwyr 6yh

Agenda

Cysylltwch â Thîm Llais Myfyrwyr ar 02920 781435 neu e-bostiwch democracy@caerdydd.ac.uk i drafod unrhyw ychwanegïadau neu newidiadau sydd gennych neu i gael rhagor o wybodaeth am unrhyw un o'r eitemau isod ar yr agenda.

I Eitemau Sylfaenol:

- A. Ymddiheuriadau
- B. Croeso gan y Cadeirydd
- C. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

II Eitemau Undeb y Myfyrwyr:

- A. Ethol Cadeirydd
- B. Cyllideb Undeb y Myfyrwyr
- C. Adroddiad gan yr Ymddiriedolwyr
- D. Gwelliannau i Is ddeddfau
- E. Eitemau a gyflwynwyd i Undeb y Myfyrwyr

III. Eitemau a Gyflwynwyd:

- A. Change of Campaign Officer position from LGBT+ Officer (Women's Place) to LGBT+ Officer (Trans Place)
- B. Cyfleoedd rhyngddisgyblaethol i fyfyrwyr

IV. Unrhyw Fusnes Arall:

- 1. Cynigion sy'n Darfod

I Eitemau Sylfaenol:**C. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Senedd Myfyrwyr

Dydd Mawrth 14^{eg} Mai

4J, Undeb y Myfyrwyr, 6yh

Yn bresennol:

Seneddwyr

Janet Williams

Zhihan Li

Alex Keyter

Daniel Onafuwa

Tomos Evans

Hannah McCarthy

Tom Kelross

Shekina Ortom

Elly Owen

Caitlyn Parr

Benjamin Leonard

Josh Prior (Is-gadeirydd)

Takura Nyamowa

Josh Eynon

Nick Fox (Cadeirydd)

Swyddogion Ymgyrch

Nia Jones

Hannah Ryan

Orla Tarn

Swyddogion Sabothol

Henri Page

Georgie Haynes

Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr

Sai Woebking

Staff Undeb y Myfyrwyr

Steve Wilford - Cyfarwyddwr Ymgysylltu a Chyfranogiad

Taz Jones - Cydlynnydd Llais y Myfyrwyr (BLS) (cofnodion)

Lucy Davies - Cydlynnydd Llais y Myfyrwyr (PSE)

I Eitemau Sylfaenol:**A. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan: Dimitra Psychari, Daniel Mapatac, Jacob Lloyd, Jacob Morris, Julia Rooke, Ollie Copleston, Jeevan Kaur, Kathryn Cribbin, Ayat Almezal a Zachary Edge.

B. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Gwnaeth JP sylw bod enw Jen Kent wedi ei gamsillafu a bod angen ei gywiro.

Cadarnhawyd y cofnodion.

II Eitemau Undeb y Myfyrwyr:**A. Ethol y Cadeirydd (ar gyfer 2019/20)**

Siaradodd JP am ddau funud

Siaradodd BL am ddau funud

Etholwyd Josh Prior fel Cadeirydd.

B. Cadarnhau Ymddiriedolwr a Enwebwyd gan y Brifysgol

Esboniodd NF am Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, a bod angen i Ymddiriedolwyr gael eu cymeradwyo gan Senedd y Myfyrwyr. Jayne Sadgrove yw'r ymddiriedolwr a enwebwyd gan y Brifysgol.

Gofynnodd EO pam na chawsant eu cylchedu cyn heddiw, nac eu cylchedu i fyfyrwyr sy'n ymddiriedolwyr.

Esboniodd TJ nad oedd ganddynt y manylion cyn heddiw.

Cymeradwywyd Jayne Sadgrove

C. Cadarnhau Myfyrwyr i fod yn Ymddiriedolwr

Esboniodd NF fod ymddiriedolwyr y myfyrwyr yn mynd drwy broses rhestr fer i gael rôl fel ymddiriedolwyr myfyrwyr.

Rhoddodd DO araith 30 eiliad pam y dylai'r seneddwyr eu cymeradwyo hwy.

Cymeradwywyd Gabriella Gropper, Ryan Singh a Daniel Onafuwa.

D. Diwygiadau i'r Is-ddeddfau:

Camodd NF i lawr fel cadeirydd ar gyfer yr adran hon gan eu bod wedi cyflwyno hanner y diwygiadau ac fe gadeiriodd JP.

i) Pwyllgor Gweithredol Gweithgareddau

Siaradodd GH o blaid y cynnig, gan esbonio ei fod yn bwysig cael amrywiaeth eang o aelodau ar y pwyllgor a'u dethol eu hunain.

Gofynnodd EO os oes unrhyw dystiolaeth fod detholiad yn dangos mwy o amrywiaeth nag etholiad.

Esboniodd HP bod myfyrwyr yn fwy hyderus i ymgeisio yn hytrach na rhedeg mewn etholiad.

Esboniodd GH nad oedd myfyrwyr wedi ymgysylltu gyda'r broses etholi ar gyfer eu pwyllgor gweithredol.

Gofynnodd AK beth fyddai'r broses dethol yn ei olygu.

Atebodd HP y byddai yn debyg i'r hyn y mae'r pwyllgorau gweithredol eraill yn ei wneud - holiadur byr a chwestiynau

i'r ymgeiswyr.

Gwnaeth EO sylw nad yw'r diwygiad yn nodi bod y detholiad yn cael ei wneud gan bwyllgor.

Awgrymodd HP newidiadau i'r diwygiad i gynnwys pwyllgor

Diwygiad i'r is-ddeddfau i ddarllen "Dim llai na phump a dim mwy nag wyth aelod myfyriwr i gael eu dethol bob blwyddyn o aelodaeth Urdd y Cymdeithasau gan banel wedi ei chadeirio gan Is-lywydd Cymdeithasau a Gwirfoddoli" a "Dim llai na phump a dim mwy nag wyth aelod myfyriwr yn cael eu dethol bob blwyddyn o'r Undeb Athletaidd gan banel a gadeirir gan yr Is-lywydd Chwaraeon"

Diwygiad yn pasio.

- ii) Hysbysiad o Bleidlais

Esboniodd HP y byddai hysbysiad o'r bleidlais yn cael ei ryddhau cyn gynted â phosibl.

Ychwanegodd GH y bydd yn anelu i fod yn barod mewn cyfnod o 24-48 awr.

Diwygiad yn pasio.

- iii) Y Cyfrif

Esboniodd GH y diwygiad a'i fod yn fesur ataliol.

Gofynnodd SO am eglurhad.

Esboniodd GH ymhellach a darllenodd y rhesymeg ar gyfer y diwygiad.

Diwygiad yn pasio.

- iv) Gweithredoedd Gweithdrefnau ac Apeliadau

Esboniodd HP ei fod yn eglurhad am yr hyn sy'n digwydd yn barod.

Diwygiad yn pasio.

- v) Trefn y Busnes

Esboniodd GH y diwygiad ac ychwanegu y dylai gael ei hysbysebu i fyfyrwyr pa gynigion sy'n mynd i'r CCB a pha rai

i'r Senedd Myfyrwyr, a gall y Cadeirydd ddewis cyflwyno rhai cynigion ar gyfer Senedd y Myfyrwyr.

Gofynnodd SW am eglurhad.

Eglurodd JP a NF beth mae'r diwygiad yn ei olygu i'r CCB a'r Senedd.

Diwygiad yn pasio.

- vi) Aelodaeth Pwyllgor Craffu

Esboniodd NF y diwygiad. Newid aelodaeth pwyllgor ar gyfer Craffu, gan fynd yn ôl i etholiadau ond cadw'r opsiwn ar gyfer ceisiadau a detholiad.

Gofynnodd NJ os yw hyn yn mynd yn erbyn proses dethol pwyllgor gweithredol y cymdeithasau a'r UA.

Esboniodd NF bod yr amser a gymerir i gynnal cyfweiliadau yn rhy hir pan fo angen Pwyllgor Craffu ym mis Tachwedd.

Gofynnodd AK os oes rheswm nad yw'n cael ei gynnal yn fwy cyson.

Esboniodd JP nad yw'n berthnasol i'r cynnig hwn. Mae modd awgrymu diwygiad ar gyfer y flwyddyn nesaf i newid pa mor aml y cyfarfyddir y Pwyllgor Craffu.

Diwygiad yn pasio.

- vii) Disodli Cynrychiolydd Cynhadledd NUS

Esboniodd NF y cynnig a'i fod yn galluogi unrhyw rolau gwag gael eu llenwi gan Senedd y Myfyrwyr a thîm y Swyddogion Sabothol. Mae'r ail ran yn golygu y gall y Llywydd fynd fel arsylwr, ond os cânt eu hethol fel cynrychiolydd gallant enwebu IL i fynd fel arsylwr yn eu lle.

Diwygiad yn pasio.

- viii) Diwygiadau Cynigion y CCB

Esboniodd NF y cynnig. Gall unrhyw un gyflwyno cynnig i'r CCB, a gall unrhyw un gyflwyno diwygiad hyd at 24 awr cyn y CCB. Mae hyn er mwyn ei newid i 48 awr cyn i'r CCB ddechrau fel y gall Llais y Myfyrwyr a myfyrwyr baratoi.

Diwygiad yn pasio.

ix) Cyllid Sabothol dros £500

Esboniodd NF y cynnig. Mae i sicrhau mwy o dryloywder ar beth mae'r swyddogion yn gwario arian a galluogi gwell craffu.

Esboniodd EO nad ydynt wedi gweld unrhyw anghytundeb gan fyfyrwyr na staff ynghylch Llywydd yr Undeb yn teithio i Namibia. Cwestiynwyd cymhelliant y diwygiad hwn.

Esboniodd NF nad yw'r cynnig hwn i alluogi'r Senedd i bleidleisio ar p'un ai y dylent fod wedi gwario'r arian, mae ar gyfer tryloywder yn unig.

Gofynnodd EO beth allai Senedd ei wneud pe byddent yn anghytuno gyda gwario'r arian wedi iddo ddigwydd.

Gofynnodd AK os dylai gwariant mawr gael ei gyflwyno i'r Senedd fel cynnig

Atebodd NF ei fod er mwyn i'r Senedd gael gweld ar gyfer tryloywder ac i graffu.

Esboniodd EO nad oeddent yn gweld pwrpas y cynnig gan fod yr arian wedi cael ei wario yn barod ac na fyddai trafodaeth yn newid unrhyw beth.

Esboniodd HP bod cyllid ymgyrchoedd yn cael ei drafod ymysg yr holl Swyddogion Sabothol. Mae'r tîm Swyddogion Sabothol wedyn yn pleidleisio ac os caiff ei dderbyn mae Llywydd yr Undeb yn ei gymeradwyo. Bu trafodaeth hir cyn i'r Llywydd deithio.

Esboniodd JW efallai y bydd problemau gyda geiriad y rhesymeg.

Gofynnodd TN os oedd unrhyw enghreifftiau eraill ble hoffai'r seneddwyr weld tryloywder.

Esboniodd NF nad ydyn nhw wedi gweld unrhyw ymgyrchoedd fel myfyrwyr sydd yn ymwneud llawer â'r Undeb ac nad ydynt wedi gweld unrhyw beth am wariant.

Anghytunodd JW gan esbonio eu bod wedi gweld llawer yn y Pwyllgor Craffu.

Rhoddodd JP ddiwedd ar y drafodaeth er mwyn dechrau'r pleidleisio.

Diwygiad yn pasio.

Gadawodd EO y cyfarfod.

Ailgydiodd NF yn y Cadeirio.

III Eitemau a Gyflwynwyd:

A. Nextbike yn Neuaddau Preswyl y Brifysgol

Gofynnodd BL os oes angen hyn.

Esboniodd HP bod myfyrwyr eisiau hyn.

Gwnaeth NJ sylw bod Prifysgol Caerdydd mewn partneriaeth gyda Nextbike.

Esboniodd OT eu bod yn byw mewn Neuaddau Preswyl ar hyn o bryd a'u bod yn Gymhorthydd Bywyd Neuaddau Preswyl. Poeni y byddai llawer o fyfyrwyr yn defnyddio'r beiciau i adael neuaddau'r Brifysgol ond ddim yn dychwelyd.

Atebodd NJ bod tracwyr ar y beiciau a thîm o bobl sy'n aiddosbarthu beiciau o amgylch rheseli beiciau. Ddim yn gwybod pryd byddai gorsaf Nextbike yn cael ei ystyried yn aneffeithiol.

Cynnig yn pasio.

B. Mabwysiadu Statws Argyfwng 'Newid Hinsawdd' mewn undod gyda Phrifysgolion eraill y DU

Siaradodd NJ ar gyfer y cynnig a llongyfarch y cynigydd ar yr ymgysylltiad eang. Eisiau newid geiriad y cynnig i lobio Prifysgol Caerdydd i gyhoeddi argyfwng newid hinsawdd. Mae prifysgolion y DU ar ei hôl hi ar eu targedau newid hinsawdd.

Cynnig yn pasio.

C. Cael gwared â'r cyfyngiad o 50 cefnogwr i gyflwyno cynnig

Siaradodd JW dros y cynnig gan esbonio er i'r cynnig diwethaf gael sawl pleidlais, yn aml nid yw cynigion llai yn cael drwodd. Mae 10 yn fwy hyfyw er mwyn sicrhau bod lleisiau lleiafrifol yn cael eu clywed.

Siaradodd AK yn erbyn y cynnig gan awgrymu bod angen i'r cyfle gael ei roi i'r myfyrwyr. Os yw'n llai na 50, gallai cynnig llai difrifol gael drwodd. Gofynnwyd pam nad oeddynt yn gallu cael 50 pleidlais.

Ychwanegodd SW nad oeddynt wedi clywed amdano a'i fod angen mwy o gyhoeddusrwydd.

Esboniodd NF y gall unrhyw fyfyrwr wneud hynny, dim ond angen mewngofnodi i cardiffstudents.com.

Cynigiodd JP ddiwygiad i beidio rhoi rhif ar yr ymgysylltiadau.

Atebodd JW nad yw'r system yn un adnabyddus a derbyniodd y diwygiad.

Gofynnodd NJ pam y cafodd ei newid.

Esboniodd HP y cafwyd ymgynghoriad helaeth y llynedd.

Ychwanegodd JP bod 16-17 seneddwr eisiau ei newid ar y pryd.

Cyflwynodd NJ gynnig yn gynharach eleni ac fe gymerodd lawer o ymdrech i gael y 50 ymgysylltiad. Efallai na fyddai myfyriwr nad yw'n swyddog neu fyfyriwr anhyderus yn teimlo fel y gallant gyflwyno syniad.

Gofynnodd GH os oes proses sgrinio ar gyfer cynigion ffug.

Esboniodd NF y gwahaniaeth rhwng gweithredol a gwleidyddol ac mae hyn yn golygu na fydd bob syniad yn mynd ar y wefan os gellir delio â'r mater gan staff mewn modd gweithredol.

Gwnaeth HP sylw bod y system wedi bod yn llwyddiannus hyd yma ac yn helpu osgoi trafodaethau ar bynciau sydd ond yn bwysig i nifer fechan o bobl. Dylai fod yn gyfrifoldeb ar seneddwr i fynd allan a siarad gyda'u cyfoedion ac i ysgogi ymgysylltiad ar y pynciau.

Ychwanegodd eu bod yn teimlo fel bod Undeb y Myfyrwyr yn tanbriso'r ffaith y gall myfyrwyr ymgysylltu mewn modd difrifol.

Esboniodd TK nad oeddynt yn credu y byddai mater newid hinsawdd wedi derbyn cymaint o ymgysylltiad heb y system. Meddwl bod yn 50 yn rif rhesymol.

Esboniodd NJ eu bod wedi cyflwyno cynnig am y gwaharddiad balwn, ond fe gymerodd amser i fyfyrwyr bleidleisio drosto. Ni ddylwn ddisgwyl i fyfyrwyr sydd yn deillio â'u gradd ac sydd â materion eraill i wneud yr ymdrech hwnnw. Roedd rhaid i mi wneud ymdrech i gael 50 pleidlais.

Ychwanegodd OT mai cyfrifoldeb y Senedd yw cynrychioli llais y myfyrwyr, hyd yn oed llais un myfyriwr yn unig.

Gwnaeth SW sylw y byddai'r system wedi ei ddiweddarau wedi dangos y nifer o fyfyrwyr ag ymgysylltodd gyda'r mater.

Ychwanegodd JP y gallwch weld hyn yn barod.

Awgrymodd AK gael seneddwr i eilio'r cynnig er mwyn iddo gael ei gyflwyno i'r senedd.

Cynigiodd AK ddiwygiad i gadw'r 50 pleidlais neu ychwanegu os bydd seneddwr yn eilio'r syniad gall ddod i'r Senedd.

Anghytunodd JW gan nad oes gan lawer o fyfyrwyr yr hyder i siarad â seneddwr.

Gofynnodd AK pe byddai lleihau'r nifer yn derbyn y ffaith nad yw myfyrwyr yn cymryd rhan yn Undeb y Myfyrwyr.

Cynigiodd HP gynnig trefniadol i fynd yn syth i bleidlais.

Eiliodd OT hyn.

Cynnig yn pasio.

D. Hygyrchedd Liff

Cyflwynwyd gan Rhiannon Lunney.

Siaradodd JW ar gyfer y cynnig ac esboniodd am broblemau hygyrchedd a'u bod yn teimlo fel nad yw'r Brifysgol wastad yn cymryd hyn i ystyriaeth. Yn y Prif Adeilad mae'r lifft ar ochr arall yr adeilad ac yn hen ffasiwn.

Ni anghytunodd GH ond esboniodd nad yw'r cynnig ynghylch hygyrchedd cyfyngedig. Mae'r cynnig ynghylch arwyddion o amgylch lifft a phwy ellir eu defnyddio.

Ychwanegodd BL ei fod yn gofyn am arwyddion i ystyried pobl sydd ag anabledd wrth ddefnyddio'r lifft, ond ei fod yn gwrthdweud ei hun pan ei fod yn dweud nad yw pob anabledd yn weladwy.

Atebodd HP mai gofyn i bobl ystyried pawb heb gymryd yn ganiataol fod pobl yn ddiog.

Awgrymodd BL arwydd yn dweud, "defnyddiwch y lifft yma dim ond os ydych chi'n anabl os gwelwch yn dda."

Ychwanegodd JW y byddai arwydd i esbonio nad yw pob anabledd yn weledol yn ddefnyddiol.

OT mae'r cynnig hwn ynglŷn â phwynt oedi a meddwl arall, mae'n bwynt o fod yn ystyriol o bobl sydd ag anableddau.

Cynnig yn pasio.

IV Unrhyw Fusnes Arall:

A. Cynigion sy'n darfod
Doedd dim cynigion sy'n darfod eleni.

B.

Gofynnodd TK beth yw sgôp yr 'Unrhyw fater arall'.

Esboniodd NF ei fod ar gyfer unrhyw eitemau eraill nad oedd ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod.

Gwnaeth TK sylw bod eleni wedi bod yn flwyddyn dda yn y senedd ac mae wedi mwynhau.

Gofynnodd HP am unrhyw syniadau eraill ar sut i ymgysylltu â myfyrwyr.

Awgrymodd SW rhoi popeth mewn un lle, gyda chrynodebau gan fod y fewnrwyd yn ddryslyd. Angen dolenni syml i wefannau ayyb y gellir eu defnyddio.



II Eitemau Undeb y Myfyrwyr:

	2019-20 Budget	2018-19 Budget	2018-19 Actual Spend	Variance Budget	Notes of changes in budget between 2018-19 and 2019-20
Total Cost of Operation (For services without income generation)					
Student Advice	174,000	158,000	164,747	10.1%	Increase in staffing related costs
Cardiff Volunteering	115,000	116,000	107,606	-0.9%	
Sabbatical Officers & Campaigns	202,000	192,000	191,398	5.2%	
Student Media	50,000	56,000	50,090	-10.7%	Budget reduced in line with recent years actual expenditure
Student Voice	165,000	157,000	160,187	5.1%	
Membership Services Central	156,000	168,000	156,648	-7.1%	
Total Cost of Operation (For services that generate income)					
AU Income	130,000	119,000	120,122	9.2%	Increased income in relation to the cost of sales
AU Expenditure	401,000	394,000	396,835	1.8%	
Total AU Funding	271,000	275,000	276,713	-1.5%	
Societies Income	37,000	37,000	36,871	0.0%	
Societies Expenditure	56,000	62,000	41,844	-9.7%	Reduced expectation of funding in line with recent years actual expenditure
Total Societies Funding	19,000	24,000	4,973	-20.8%	
Give it a Go Income	27,000	25,000	22,598	8.0%	
Give it a Go Expenditure	29,000	30,000	27,360	-3.3%	
Total Give it a Go Funding	2,000	5,000	4,762	-60.0%	Seeking to pursue a break even position
Transport Income	35,000	29,000	28,497	20.7%	Increased income with new mileage rates, net income has eroded in recent years due to fuel price increases
Transport Expenditure	96,000	101,000	103,779	-5.0%	
Total Transport Expenditure	61,000	72,000	75,282	-15.3%	
Skills Development Service Income	2,000	500	0	300.0%	
Skills Development Expenditure	66,000	65,000	60,458	1.5%	
Total Skills Development Funding	64,000	64,500	60,458	-0.8%	
Jobshop Income	133,000	120,000	150,804	10.8%	Increased turnover due to growth in University vacancies
Jobshop Expenditure	112,000	94,000	104,781	19.1%	Increased staff resource in order to facilitate service delivery
Total Jobshop Funding	-21,000	-26,000	-46,023	-19.2%	Note: A negative figure indicates a surplus
Total Funding to Student Service Delivery	1,258,000	1,261,500	1,206,841	-0.3%	

4. Procedure for Debate

- (a) Policy ideas must be submitted through the students' union online voting mechanism before they are added to the Student Senate Agenda. Members Meeting policy is excluded from this process, instead the process for submitting policy will be outlined within the Notice of the Members Meeting
- (i) Students submit their policy idea via the students' union website
 - (ii) If the policy idea is of operational concern it will be added to the next Leadership or Management Team meeting and will not require a vote
 - (iii) If the policy idea is a political stance or request for action from the elected representatives of the students' union, the policy idea will be made available for students to vote on within one working day of the submission
 - ~~(iv) Policy ideas will be given two weeks to receive a minimum of 50 votes in order to be added to the upcoming Student Senate agenda outside of the academic term this timeframe may be extended~~
 - (iv) Policy ideas must be submitted at least 2 working days before the circulation of the Student Senate agenda in order to be considered at any upcoming meeting.

Rationale:

At the last Student Senate of the 2018/2019 academic session it was decided to remove the requirement for an idea to reach 50 voters. This Bye Laws amendment removes that requirement but also provides structure to allow for Welsh translation of any ideas as well as the opportunity for Student Senators to engage those they represent to ensure their votes are in line with the student population.

Eitemau a gyflwynwyd i Undeb y Myfyrwyr

- i. Adolygiad o Femorandwm ac Erthyglau y Gymdeithas

Cyflwyniad

Mae Memorandwm ac Erthyglau'r Undeb yn ddogfen sy'n ffurfio cyfansoddiad yr Undeb, yn diffinio cyfrifoldebau'r Bwrdd Ymddiriedolwyr, y math o fusnes y caiff yr Undeb ei gynnal a'r ffordd y mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn atebol i'r myfyrwyr.

Cyd-destun yr Adolygiad a'r Broses

Mae'r Erthyglau'n nodi bod yn rhaid i'r Memorandwm a'r Erthyglau gael eu hadolygu bob pum mlynedd, a nawr yw'r amser. Mae'r ddogfen yn addas i'r pwrpas, ond argymhellir cyfres o ddiwygiadau gweinyddol, gyda'r bwriad o egluro unrhyw beth sy'n amwys, dileu unrhyw ddyblygu, a diweddarau terminoleg.

Mae'r broses ar gyfer cymeradwyo'r Memorandwm a'r Erthyglau ar gael yn Adran 9 a dyma grynodeb o'r broses:-

- Diwygiadau arfaethedig i gael eu cytuno gan y Bwrdd Ymddiriedolwyr
- Diwygiadau arfaethedig i gael eu darparu i bob aelod sy'n Fyfyriwr – mae'r eitem hon yn gyfystyr a darparu
- Mae modd cyflwyno adolygiadau i'r cynigion trwy ddeiseb neu fwyafrif o'r Senedd Myfyrwyr
- Diwygiadau arfaethedig (neu gynigion wedi'u hadolygu) i gael eu cytuno mewn Cyfarfod o Aelodau sy'n Fyfywr neu trwy refferendwm
- Diwygiadau i gael eu cytuno gan benderfyniad arbennig o'r Bwrdd Ymddiriedolwyr
- Diwygiadau i gael eu cytuno gan Gyngor y Brifysgol

Argymhelliad

- Cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i'r Memorandwm a'r Erthyglau fel y nodir yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn, er mwyn eu cyflwyno ar gyfer eu cymeradwyo, fel yr amlinellir uchod.
- Mewn perthynas â'r Is-ddeddfau a'r atodiadau i'r Is-ddeddfau, awdurdodi'r Senedd Myfyrwyr i ystyried goblygiadau unrhyw un o'r diwygiadau uchod, ac i wneud newidiadau priodol fel y gwêl yn dda.
- Awdurdodi'r Prif Weithredwr i wneud diwygiadau drafftio eraill sydd eu hangen o ganlyniad i'r newidiadau uchod er mwyn sicrhau cywirdeb gramadegol a chyfeiriadol.

Jackie Yip

Llywydd

Daniel Palmer

Prif Weithredwr

Rhif	Darpariaeth	Y geiriad presennol gan ddangos y newid arfaethedig. Linell yn nodi dileu, testun trwm yn nodi ychwanegiad.	Y geiriad newydd arfaethedig	Y rhesymeg
23.6	Ymddiriedolwyr Sabothol – contract cyflogaeth	23.6 Wrth ddechrau eu cyfnod gwasanaethu fel Ymddiriedolwr Sabothol, bydd yr Ymddiriedolwr Sabothol yn ymrwymo i gontract cyflogaeth ag Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd neu Wasanaethau Undeb Caerdydd Cyf am gyfnod a bennir gan yr Is-ddeddfau.	23.6 Wrth ddechrau eu cyfnod gwasanaethu fel Ymddiriedolwr Sabothol, bydd yr Ymddiriedolwr Sabothol yn ymrwymo i gontract cyflogaeth ag Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd am gyfnod a bennir gan yr Is-ddeddfau.	Byddai'r diwygiad arfaethedig yn adlewyrchu'r trefniadau ymarferol.
30.1/ 30.2	Llenwi swydd wag Ymddiriedolwr Sabothol	<p>30.1 Os bydd Ymddiriedolwr Sabothol yn ymddiswyddo, yn cael ei ddiarddel neu'n cael ei wahardd o'i swydd ar unrhyw adeg cyn neu ar ôl i'r Flwyddyn Academaidd ddechrau, yna bydd y swydd wag ar y Bwrdd Ymddiriedolwyr yn cael ei llenwi yn unol â'r Is-ddeddfau.</p> <p>30.2 Os bydd Ymddiriedolwr Sabothol yn ymddiswyddo, yn cael ei ddiarddel neu'n cael ei wahardd o'i swydd ar ôl i'r Flwyddyn Academaidd ddechrau, yna bydd y swydd wag yn cael ei llenwi yn unol â'r Is-ddeddfau. Mae'n bosib y bydd gofyn i unrhyw un a etholir o dan yr Erthygl hon gymryd cyfrifoldebau Ymddiriedolwr Sabothol.</p>	<p>30.1 Os bydd Ymddiriedolwr Sabothol yn ymddiswyddo, yn cael ei ddiarddel neu'n cael ei wahardd o'i swydd cyn neu ar ôl i'r Flwyddyn Academaidd ddechrau, yna bydd y swydd wag ar y Bwrdd Ymddiriedolwyr yn cael ei llenwi yn unol â'r Is-ddeddfau. Mae'n bosib y bydd gofyn i unrhyw un a etholir o dan yr Erthygl hon gymryd cyfrifoldebau Ymddiriedolwr Sabothol.</p>	Cyfuno darpariaethau presennol; dim newid effaith gwirioneddol.

33.2	Sefydlu Pwyllgorau o'r Bwrdd Ymddiriedolwyr	<p>33.2 Bydd yr Ymddiriedolwyr yn sefydlu</p> <ul style="list-style-type: none"> • Tim Arwain a ddisgrifir ymhellach yn Erthygl 35 • Pwyllgor gyda chyfrifoldeb penodol dros oruchwylio perfformiad cyllid a chynaliadwyedd yr Undeb • Pwyllgorau a/neu Is-bwyllgorau eraill sydd eu hangen er mwyn gweithredu eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau, yn unol ag Erthyglau 32 a 33.1. <p>y pwyllgorau canlynol (sydd ddim yn rhestr lawn)</p> <p>33.2.1 Tim Arwain (a ddisgrifir ymhellach yn Erthygl 35);</p> <p>33.2.2 Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau</p> <p>33.2.3 Pwyllgor Cyllid ac Archwilio</p> <p>33.2.4 Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Chynnal a Chadw.</p>	<p>33.2 Bydd yr Ymddiriedolwyr yn sefydlu:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Tim Arwain a ddisgrifir ymhellach yn Erthygl 35; • Pwyllgor gyda chyfrifoldeb penodol dros oruchwylio perfformiad cyllid a chynaliadwyedd yr Undeb • Pwyllgorau a/neu Is-bwyllgorau eraill sydd eu hangen er mwyn gweithredu eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau, yn unol ag Erthyglau 32 a 33.1. <p>(Os cânt eu cymeradwyo, bydd hyn hefyd yn golygu dileu 59.1.24, 59.1.27 a 59.1.36 sy'n diffinio'r Pwyllgorau rhagnodedig. Felly, fe argymhellir bod paragraff yn cael ei ychwanegu at 59.1 i roi diffiniad cyffredinol o Bwyllgor.)</p>	<p>Bydd dileu cylch gwaith a nifer rhagnodedig o Bwyllgorau yn galluogi i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr benderfynu pa strwythur Pwyllgor sydd orau ar gyfer cyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol, heb orfod diwygio'r Erthyglau ymhellach. Bydd y Tim Arwain a'r Pwyllgor Cyllid yn cael eu cadw.</p>
------	---	--	---	--

53.3	Cyhoeddi Cofnodion	<p>53.3 Bydd cofnodion y cyfarfodydd y cyfeirir atynt yn Erthygl 53.1 uchod yn agored fel arfer a byddant ar gael i'r Aelodau sy'n Fyfrwyr ar wefan yr Undeb, oni bai bod y cofnodion hynny'n ymwneud â materion sydd wedi'u neilltuo neu sy'n gyfrinachol, gan gynnwys, yn ddigifyngiad, faterion disgyblaethol neu faterion yn ymwneud â staff.</p> <p>Os bydd y cofnodion yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol, yna bydd crynodeb o'r penderfyniadau a gymerwyd ar gael i Aelodau sy'n Fyfrwyr ar wefan yr Undeb, ond ni fyddant yn cynnwys y wybodaeth gyfrinachol.</p> <p>Hefyd, bydd copïau o'r cofnodion yn cael eu cadw yn swyddfeydd yr Undeb.</p>	<p>53.3 Bydd cofnodion y cyfarfodydd a gyfeirir atynt yn Erthygl 53.1 uchod yn agored fel arfer, oni bai bod y cofnodion hynny'n ymwneud â materion sydd wedi'u neilltuo neu sy'n gyfrinachol, gan gynnwys, yn ddigifyngiad, faterion disgyblaethol neu faterion yn ymwneud â staff.</p> <p>Os bydd y cofnodion yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol, yna bydd crynodeb o'r penderfyniadau a gymerwyd ar gael i Aelodau sy'n Fyfrwyr ar wefan yr Undeb, ond ni fyddant yn cynnwys y wybodaeth gyfrinachol.</p> <p>Hefyd, bydd copïau o'r cofnodion yn cael eu cadw yn swyddfeydd yr Undeb.</p>	<p>Wrth i natur busnes yr Undeb ddatblygu, prin yw'r adegau pryd na fydd cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau yn cynnwys gwybodaeth na ddylid ei chyhoeddi am resymau cyfrinachedd masnachol a/neu i osgoi rhyddhau gwybodaeth bersonol.</p> <p>Mae'r diwygiad arfaethedig yn cadw'r rhagdybiaeth o fod agored ynghyd â'r darpariaethau sy'n caniatáu diogelu cyfrinachedd masnachol a phersonol, ond mae hefyd yn sicrhau cyhoeddi'r penderfyniadau a gymerwyd.</p>
------	--------------------	---	---	---

59.2	Dehongliad – defnydd o dermau rhyweddol	<p>Bydd geiriau sy'n dynodi'r unigol yn cynnwys y lluosog ac i'r gwrthwyneb; a bydd geiriau sy'n dynodi'r gwrywaidd yn cynnwys y benywaidd ac i'r gwrthwyneb.</p> <p>Pan fydd y geiriau “nhw”, “eu” ac “eu hunain” yn cael eu defnyddio i ddisgrifio unigolyn, byd y geiriau yn cyfeirio at yr unigolyn hwnnw, beth bynnag yw hunaniaeth yr unigolyn hwnnw o ran rhywedd.</p>	<p>Bydd geiriau sy'n dynodi'r unigol yn cynnwys y lluosog ac i'r gwrthwyneb. Pan fydd y geiriau “nhw”, “eu” ac “eu hunain” yn cael eu defnyddio i ddisgrifio unigolyn, bydd y geiriau yn cyfeirio at yr unigolyn hwnnw, beth bynnag yw hunaniaeth yr unigolyn hwnnw o ran rhywedd.</p>	<p>Mae'r Undeb yn cymryd camau i ddefnyddio iaith gynhwysol a niwtral a bydd y diwygiad arfaethedig yn sicrhau bod yr Erthyglau yn cyd-fynd â'r gwaith hynny.</p>
------	---	---	--	---

III. Eitemau a Gyflwynwyd:

A. Newid safle Swyddog Ymgyrch o fod yn Swyddog LGBT+ (Merched) i fod yn Swyddog LGBT+ (Safle Traws)

Beth yw'r broblem?

Ar hyn o bryd, gyda Swyddog LGBT+ Safle Agored a Safle Merched, gall faterion traws gael eu hesgeuluso gan strwythur y swyddogion. Yn y cyfryngau, gwelwn gynrychiolaeth gwilyddus o wael o bobl Traws ac adroddiadau o ymddygiad ymosodol gynyddol tuag at bobl Traws. Hefyd, ceir lefelau digynsail o iechyd meddwl gwael yn y gymuned Traws, a ceir diffyg cefnogaeth iddynt yn gyhoeddus, ac mewn prifysgolion. Oherwydd y diffyg cynrychiolaeth posibl presennol, gallwn wneud mwy i gefnogi ein myfyrwyr Traws yn well.

Beth yw eich syniad?

Erbyn Etholiadau'r Gwanwyn ym Mlwyddyn Academaidd 2019-2020, bydd y Tîm Swyddogion Ymgyrch yn cynnwys Swyddog LGBT+ (Safle Traws), yn hytrach na Swyddog LGBT+ (Safle Merched). Mae hyn yn dangos bod Undeb y Myfyrwyr yn weithredol gefnogol o'u haelodau Traws ac yn eu gwneud yn weladwy. Mae hefyd yn gam tuag at sicrhau bod Swyddogion LGBT+ yn gallu ymgymryd â mwy o faterion sy'n effeithio'r gymuned LGBT+, gan nad yw yn grŵp unffurf. Bydd cynrychioli merched yn gyfrifoldeb ar y ddau swyddog.

B. Cyfleoedd rhyngddisgyblaethol i fyfyrwyr

Beth yw'r broblem?

Ar hyn o bryd, mae'n anodd i fyfyrwyr weithio ar brosiectau sy'n ymestyn y tu hwnt i ddisgyblaeth eu hysgol academaidd. (Mae hyn yn effeithio ar bob myfyriwr israddedig a gallai effeithio ar fyfyrwyr ôl-raddedig.)

Beth yw eich syniad?

Dylai'r brifysgol alluogi a chynyddu'r cyfleoedd i fyfyrwyr weithio ar brosiectau ar draws ysgolion academaidd (e.e. cyfuno'r Ysgol Busnes ac Ysgol Gwyddorau'r Ddaear, sut gallwn ni greu model economaidd sy'n annog pobl i warchod yr amgylchedd?). Mae'r syniad hwn yn gam nesaf rhesymegol yn dilyn yr Heriau Mawr, lle daeth myfyrwyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd ynghyd i fynd i'r afael â mater cyfoes. Y cam nesaf yw hybu cysylltiadau academaidd rhwng ysgolion.

IV. Unrhyw Fusnes Arall:

1. Cynigion sy'n Darfod

Catering for all - Vegan food options at the SU (21/11/2016 – 21/11/2019)

Senate Notes:

- Currently, there are no vegan friendly menu options available at the Taf, with the salad bar being the only provider of vegan foods in the SU food court. Additionally, the staff at the Taf often have no information regarding how vegan friendly the alcohol provision currently is.

Senate Believes:

- Vegan foods are increasingly becoming mainstream, with most large restaurant chains having at least one option available. Vegan lifestyles are becoming more common within the student population as the popularity of veganism continues to grow.

Senate Resolves:

- Taf will provide at least one Vegan friendly menu option ASAP, but at the very latest, before the start of the second semester 2016/17
- This senate also resolves that information regarding the animal content in the drinks served is available to staff, is physically visible around bars, and is registered on the SU website.
- That The SU should consider stocking vegan friendly alcohol choices as standard.
- The students union should lobby the relevant University catering departments to similarly provide vegan friendly foods and drinks and label them accordingly.